Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol (PRID)

Mae'r Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn cefnogi ac yn eiriol ar ran polisïau i wella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldeb yng Nghymru a thramor.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys tair Adran sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd ac sy'n cael eu cefnogi gan y Tîm Cefnogi Busnes a Gweinyddol:

- Polisi Iechyd Cyhoeddus
- Iechyd Rhyngwladol
- Ymchwil a Datblygu

Ein nod yw sicrhau bod y dysgu lleol, cenedlaethol a rhyngwladol oddi wrth bolisïau, ymchwil ac arferion yn cael ei ddwyn ynghyd i gefnogi'r sefydliad ehangach a'n partneriaid ledled Cymru a thramor.

Mae'r lleoliad hwn yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn Ymchwil, Polisi a Rheoli Busnes. Mae'r lleoliad yn hyblyg i gyd-fynd â'r lleoliad sydd ei angen ar unigolion a bydd yn cynnwys tasgau amrywiol.

Lleoliadau gwaith sydd ar gael: 1+

Bydd y lleoliadau ar gael yn ystod: 3 Mehefin – 30 Awst 2019

Hyd y lleoliadau: byddwn yn ystyried ceisiadau o 1 diwrnod i 1 wythnos

Oriau: hyd at 7.5 y dydd

Lleoliad: Canol Dinas Caerdydd

Parcio ar gael yn y swyddfa: Nac oes

Gofynion teithio yn ystod y lleoliad: Nac oes